# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 3 - y Senedd**

Dyddiad: Dydd Mercher, 10 Mai 2017

Amser: 09.32 - 11.30

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/4172

# Cyfarfod preifat

## Yn bresennol

| **Categori** | **Enwau** |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | Jayne Bryant AC<br>Siân Gwenllian AC<br>Vikki Howells AC<br>Huw Irranca-Davies AC<br>David Melding AC (Cadeirydd)<br>Jenny Rathbone AC<br>Simon Thomas AC |
| Tystion: | |
| Staff y Pwyllgor: | Marc Wyn Jones (Clerc)<br>Louise Andrewartha (Dirprwy Glerc)<br>Wendy Dodds (Ymchwilydd)<br>Elfyn Henderson (Ymchwilydd) |

## 1 Ymchwiliad i'r ffordd y mae Llywodraeth Cymru yn cyflawni ei strategaeth Coetiroedd i Gymru - crynodeb o'r dystiolaeth ysgrifenedig

Yn unol â Rheol Sefydlog 17.22, cytunodd y Pwyllgor i ethol Cadeirydd dros dro. Cytunodd yr Aelodau y byddai David Melding yn cadeirio'r cyfarfod hwn ac y byddai rôl Cadeirydd y Pwyllgor yn cylchdroi rhwng grwpiau'r pleidiau a gynrychiolir ar y Pwyllgor hyd nes y penodir Cadeirydd parhaol.

Trafododd yr Aelodau y dystiolaeth a gafwyd mewn ymateb i'r ymgynghoriad ar sut y cyflenwodd Llywodraeth Cymru y Strategaeth Coetiroedd i Gymru, a chytunwyd ar restr o dystion llafar.

## 2 Trafod yr adroddiad drafft ar yr ymchwiliad i TB mewn Gwartheg yng Nghymru

Trafododd yr Aelodau yr adroddiad a chytunwyd i'w gyhoeddi ym mis Mai.

## 3 Papur i’w nodi

### 3.1 Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol

Trafododd yr Aelodau y llythyr ar effaith y Bil Diddymu Mawr a chytunodd i ymateb i Gadeirydd y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol. Bydd ymateb y Pwyllgor yn nodi ei syniadau cychwynnol ar y mater hwn a goblygiadau gadael yr Undeb Ewropeaidd, yn enwedig mewn perthynas ag adroddiad diweddar y Pwyllgor ar ddyfodol rheoli tir yng Nghymru.